Yn ein cynhadledd genedlaethol yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn y 9fed o Ebrill 2016 byddwn yn ethol ein Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ar gyfer 2016-17. Gall unrhyw aelod o Blaid Cymru ifanc enwebu eu hunain ar gyfer swydd ar y PGC, a gaiff eu hethol drwy system un-pleidlais-yr-aelod.

Mae PGC Plaid Ifanc yn arsylwi gweithgareddau dydd-i—ddydd y mudiad. Caiff swydd ddisgrifiadau pob aelod o'r PGC eu rhestru isod. Os hoffech enwebu eich hunain am swydd ar y pwyllgor, anfonwch ebost at info@plaidifanc.org

**Cadeirydd Cenedlaethol**

- Arwain Plaid Cymru Ifanc
- Arsylwi, cefnogi a dirprwyo gwaith a tasgau i aelodau'r PGC
- Cadeirio pob cyfarfod o'r PGC, cynhadledd genedlaethol a digwyddiadau eraill
- Arsylwi cysylltiadau Plaid Ifanc gyda'r cyfryngau a mudiadau allanol
- I gynrychioli Plaid Ifanc ar PGC Plaid Cymru

**Is-gadeirydd**

- Cadeirio cyfarfodydd y PGC pan nad yw'r Cadeirydd yn bresennol
- Cysylltu gyda partneriaid Plaid Ifanc ar draws Ewrop drwy'r European Free Alliance Youth (EFAy)
- Cydweithio gyda Swyddog Polisi wrth drefnu cynhadledd Plaid Ifanc
- Cysylltu gyda canghennau Prifysgol Plaid Ifanc er mwyn annog a chefnogi aelodau i sefyll ar gyfer Undeb y Myfyrwyr ac etholiadau UCM

**Ysgrifennydd**

- Ysgrifennu cofnodion cyfarfod a phwyntiau gweithgarwch ar gyfer pob cyfarfod o'r PGC
- Cymryd yr arweiniad mewn trefnu digwyddiadau Plaid Ifanc
- Monitro ac ateb i bob ebost a gaiff ei dderbyn gan Plaid Ifanc
- I brynu ac i archebu nwyddau ar ran Plaid Ifanc

**Trysorydd**

- Monitro sefyllfa ariannol Plaid Ifanc
- Paratoi adroddiad ar sefyllfa ariannol Plaid Ifanc yn chwarterol
- Awdurdodi gwariant ar weithgareddau Plaid Ifanc
- Trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer Plaid Ifanc
- Gweithio gyda'r Swyddog Ymgyrchoedd i ddatblygu gweithgareddau codi arian
- Cydweithio gyda canghennau etholaethau Plaid Cymru i sicrhau arian ar gyfer gweithgareddau Plaid Ifanc

**Swyddog Menywod**

- Sicrhau bod barn aelodau benywaidd yn cael ei glywed ar y Pwyllgor Gwaith ac o fewn y mudiad
- Gweithio i gynyddu gweithgarwch menywod ifanc yn Plaid Ifanc a Phlaid Cymru
- Gweithio gyda pob aelod o'r Pwyllgor Gwaith i sicrhau bod menywod yn chwarae rôl ganolog yng ngweithgarwch Plaid Ifanc

- Gweithio gyda'r Swyddog Aelodaeth i ddatblygu dealltwriaeth aelodau o ffeministiaeth
- Trefnu gweithgarwch ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched.

**Swyddog Ymgyrchoedd**

- Trefnu a chefnogi aelodau Plaid Ifanc ym mhob etholiad
- Trefnu ymgyrchoedd fel y'u penderfynir gan y Pwyllgor Gwaith a Chynhadledd Plaid Ifanc
- Cadw mewn cysylltiad gyda changhennau newydd Plaid Ifanc i'w cefnogi i ymgyrchu
- I arwain a threfnu Diwrnodau Cenedlaethol o Ymgyrchu i gefnogi ymgeisyddion Plaid Cymru mewn etholiadau

**Swyddog Cyfathrebu**

- Gweithio i sicrhau bod pob un o aelodau Plaid Ifanc yn ymwybodol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gymaint ag y bo modd
- Ysgrifennu a danfon cylchlythyr misol Plaid Ifanc at yr aelodau
- Cymryd cyfrifoldeb dros ddiweddaru a goruchwylio cynnwys gwefan Plaid Ifanc
- Cymryd cyfrifoldeb dros ddiweddaru a goruchwylio presenoldeb Plaid Ifanc ar y cyfyngau cymdeithasol.

**Swyddog Polisi**

- Cadw mewn cysylltiad gyda Phlaid Cymru i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynrychioli yn y broses o greu polisi
- Gweithio gyda'r Cadeirydd i drefnu Cynhadledd Genedlaethol Plaid Ifanc
- Drafftio a chyflwyno cynigion ar ran Plaid Ifanc i gynhadledd Plaid Cymru ac i'r Cyngor Cenedlaethol
- Gweithio gyda'r swyddog aelodaeth i ddatblygu sgiliau aelodau
- Cadw cofnod o bolisi Plaid Ifanc
- Trefnu addysg wleidyddol aelodau Plaid Ifanc gyda chymorth y Swyddog Aelodaeth

**Swyddog Aelodaeth**

- Sicrhau bod bas data aelodaeth Plaid Ifanc wedi'u ddiweddaru yn gyson
- Gweithio gyda grwpiau lleol i sicrhau'r uchod a bod pob aelod newydd yn cael ei ychwanegu neu ei hychwanegu i'r restr e-bost
- Trefnu hyfforddiant a digwyddiadau i ddatblygu sgiliau aelodau Plaid Ifanc
- Gweithio gyda changhennau Plaid Ifanc i sicrhau eu bod yn cynnal gweithgareddau cyson
- Trefnu ymgyrchoedd recriwtio aelodau
- Trefnu addysg wleidyddol aelodau Plaid Ifanc gyda chymorth y Swyddog Polisi